
Met Office

Ystod Oedrannau: 7-11

# Dadgodio D-Day (Dydd-D)



# Cyflwyniad



**Trosolwg**

Mae'r wers hon yn cyflwyno disgyblion i'r rôl hanfodol a chwaraewyd gan y Swyddfa Dywydd yn D-Day. Mae'n cynnwys gweithgareddau torri cod ac yn archwilio pwysigrwydd arsylwadau a rhagolygon y tywydd wrth wneud penderfyniadau.

**Amser sy'n ofynnol**

60 munud ar gyfer pob gweithgaredd (neu lai os yw tasgau unigol yn cael eu dewis)

**Deunyddiau sy'n ofynnol**

- Sleidiau Datgodio D-Day(Dydd-D)
- Olwynion Seiffro
- Taflen waith 'Tra Chyfrinachol'
- Map(iau) printiedig (dewisol)

**Canlyniadau Dysgu**

Trwy gwblhau'r wers hon, bydd myfyrwyr yn gallu:

- Myfyrio ar bwysigrwydd arsylwadau a rhagolygon tywydd wrth wneud penderfyniadau
- Deall pam mae codio, neu amgryptio gwybodaeth yn bwysig

**Dolenni Cwricwlwm**

- **Hanes/Pobl, Digwyddiadau a Chymdeithasau'r Gorffennol** – deall sut mae bywydau pobl wedi llunio'r genedl hon
- **Llythrennedd ac iaith Saesneg** – cyfathrebu ysgrifenedig a llafar
- **Daearyddiaeth/Astudiaethau cymdeithasol/Y Byd o'n cwmpas** – arsylwi, casglu data a chyfathrebu data a rhagfynegi
- **Cyfrifiadura/TGCh** – codio ac amgryptio





# Camau gweithgareddau



10 munud

Sleidiau 1-8

**01**

Dechreuwch y wers gyda thrafodaeth am y tywydd yn ystod rhyfel.

- Pam y gallai cymryd arsylwadau tywydd a gwneud rhagolygon tywydd fod yn bwysig yn ystod rhyfel (yn benodol, er enghraifft, yn ystod yr Ail Ryfel Byd)?
- Sut maen nhw'n meddwl y gallai arsylwadau tywydd fod wedi cael eu cyfathrebu yn ystod rhyfel?
- Pwy oedd yn gyfrifol am wneud y rhagolygon tywydd?
- Cyflwynwch y cysyniad o godio, neu amgryptio gwybodaeth fel ei bod yn cael ei gwarchod - dim ond y rhai sy'n gwybod sut i'w dadgodio sy'n gallu ei defnyddio

Gan ddefnyddio'r sleidiau ategol, trafodwch gyda'r dosbarth y byddant yn edrych ar rai arsylwadau tywydd cyfrinachol a godiwyd ac a ddatgodiwyd ar gyfer D-Day yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Byddai'r bobl sy'n mesur y tywydd, yr arsylwyr, yn codio eu harsylwadau gan ddefnyddio seiffr, ac yna'n anfon yr arsylwadau wedi'u hamgryptio i Barc Bletchley – cartref tra chyfrinachol y rhai a oedd yn torri cod yn yr Ail Ryfel Byd.

Byddai'r arsylwadau wedi cael eu hanfon i Bencadlys y Swyddfa Dywydd o Barc Bletchley, ac yna'n cael eu dadgodio gan beiriant arbennig o'r enw telebrintiwr. Byddai'r drafftsfenywod yn trawsgrifio'r arsylwadau tywydd hyn i siart a fyddai wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r daroganwyr tywydd, gan gynnwys Grŵp-gapten James Stagg.

# Camau gweithgareddau



**02** Rhowch daflen waith 'Tra Chyfrinachol' a'r olwyn seiffro gyfrinachol i bob myfyriwr (rhowch olwyn i bob plentyn, neu un i bob pâr neu grŵp bach – fe allech chi eu cael i dorri eu olwyn seiffro eu hunain neu fe allech chi wneud hyn ymlaen llaw ar eu cyfer).

Yn gyntaf, gofynnwch iddyn nhw arbrofi gyda'r olwyn. Dangoswch iddyn nhw sut i'w chylchdroi o gwmpas, bod pob eicon yn cynrychioli llythyren wahanol o'r wyddor. Gofynnwch iddyn nhw weithio allan beth yw eu henw cyntaf mewn cod a thynnu llun o hwn ar eu taflen waith 'Tra Chyfrinachol'.

Atgoffwch y plant y byddan nhw'n gwneud hyn y ffordd arall pan fydd rhaid iddyn nhw ddadgodio gwybodaeth am y tywydd ar gyfer Capten Stagg.

10 munud

Tasg unigol

Neu

Gwaith grŵp

**03** Dangoswch iddyn nhw eu bod wedi derbyn rhai arsylwadau wedi'u codio gan y Swyddfa Dywydd a ddefnyddiwyd i ragweld D-Day. Anfonwyd y rhain allan am 7am ar Fehefin 6 1944 ac maen nhw ar eu taflen waith 'Tra Chyfrinachol'.

Dylai disgyblion ddadgodio pob cliw llun gan ddefnyddio eu olwyn seiffro, ac ysgrifennu'r llythyren gyfatebol yn y blwch isod, i ddadgodio'r arsylwad tywydd ar gyfer pob lleoliad.

Os oes amser, gallan nhw greu eu rhagolwg wedi'i godio eu hunain ar gyfer tywydd heddiw yn eu lleoliad eu hunain a thynnu lluniau'r eiconau yn y blychau. Yna gallan nhw roi eu dalen i'r person sy'n eistedd wrth eu hymyl, a gweld a allan nhw ddadgodio eu harsylw, ac yna cymharu'r hyn a gofnodwyd ganddyn nhw i weld a ydynt yn credu bod y tywydd yr un peth.

20 munud

Tasg unigol

Neu

Gwaith grŵp





# Camau gweithgareddau

**04** Ewch trwy'r arsylwadau y maen nhw wedi'u dadgodio a thrafod fel dosbarth beth oedd y tywydd yn ei wneud am 7am ar D-Day. Gallech chi naill ai ddefnyddio'ch bwrdd gwyn rhyngweithiol i ysgrifennu'r arsylwadau ar y map ar sleid 8, neu brintio copi/copïau o'r map a gofyn i'r myfyrwyr ysgrifennu'r arsylwadau i lawr, efallai hefyd gan ddefnyddio'r math o symbolau tywydd y gallen nhw eu gweld yn cael eu defnyddio ar ragolygon tywydd heddiw, yn ogystal â geiriau.

Os oes amser, gofynnwch i'r myfyrwyr ddod i flaen y dosbarth a chyflwyno rhagolwg tywydd, gyda chefnogaeth, gan ddefnyddio'r arsylwadau y mae'r plant wedi'u dadseiffro. Gellir gwneud hyn ar gefndir y map tywydd.

10 munud

Gwaith grŵp

**05** Dewch â'r sesiwn i ben trwy ofyn y cwestiynau dilynol i'r dosbarth:

- Pam mae cymryd arsylwadau tywydd a gwneud rhagolygon tywydd yn bwysig yn ystod rhyfel?
- Pam roedd arsylwadau tywydd yn gyfrinachol yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Sut cawson nhw eu gwneud yn gyfrinachol?
- Ydych chi'n credu bod y Swyddfa Dywydd yn gwneud pethau tebyg heddiw?
- (am ragor o wybodaeth, gweler https://www.metoffice.gov.uk/defence/uk/mmu)

5 munud

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gynorthwyo pobl ifanc 7-14 oed i fod yn barod ar gyfer effeithiau tywydd a newid yn yr hinsawdd arnyn nhw a'u cymunedau.
Gallwch ganfod rhagor yn **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2019, Y Swyddfa Dywydd